Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Nantgaredig a'r Fro**

**Neuadd Gymunedol**
**Felingwm Uchaf**
**Nantgaredig**
**SA32 7PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/04/2023

## Cylch Meithrin Nantgaredig a'r Fro

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Sarah Jones |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Nantgaredig a'r Fro. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Mae dewisiadau da ar gael i'r plant ac maent yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cysylltiadau cryf â'r staff.

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu'n dda, gan gynnig rhai gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth a chynnydd unigol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn fesurau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae ardaloedd chwarae ar gael i'r plant chwarae dan do, yn ogystal ag ardal awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant a'i fod yn eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth addas o adnoddau sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiad er mwyn ysgogi eu dychymyg a'u diddordeb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n ddigonol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n briodol. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r system ar gyfer sicrhau bod y staff yn addas ac ar gyfer diwallu eu hanghenion datblygiad proffesiynol ymhellach.

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae'r plant yn gyfarwydd â'i gilydd ac mae ganddynt ffrindiau. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, mae llawer o sgwrsio wrth i'r plant ymgymryd â gweithgaredd gan ddefnyddio'r siapiau adeiladu plastig. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn cyfleu eu hanghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ac yn ymateb yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft, dewis pa weithgareddau i chwarae â nhw a chyda phwy i eistedd yn ystod amser byrbryd. Caiff lleisiau'r plant eu cydnabod. Er enghraifft, mae'r plant yn datgan yn hyderus pa gân yr hoffent ei chanu cyn mynd adref.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn golchi eu dwylo ar adegau priodol. Ar ôl eu cyfnod chwarae rhydd, mae'r plant yn helpu i dacluso'r teganau ac yn canu "*Amser tacluso yw hi nawr*". Maent yn ddigon bodlon mynd at y staff i ofyn am bethau, i gael cysur neu sicrwydd ac i rannu straeon am eu teuluoedd. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol ac yn cael canmoliaeth am eu cyflawniadau a'u hymdrechion. Mae'r plant yn gwrtais ac maent yn ymarfer defnyddio moesau da bob amser. Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn cymryd troeon ar y llithren a'r teganau reidio; mae plant eraill yn chwarae am gyfnod estynedig gan rannu'r adnoddau yn yr hambwrdd tywod. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff ac yn ystod amser gweithgareddau, maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt, yn ogystal ag ar eu gliniau. Mae'r plant yn gwbl gyfforddus ac roedd hyn yn amlwg wrth i un plentyn wahodd aelod o'r staff i eistedd wrth ei ymyl amser cinio, *"Dere i eistedd ar bwys fi."*

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad o'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd ac yn symud yn hyderus o un ardal i'r llall. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt ac yn canolbwyntio wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hynny yn ystod yr ymweliad. Fodd bynnag, gwelwyd ffotograffau hefyd a oedd yn dangos y plant yn cymryd rhan mewn rhai tasgau dan arweiniad y staff, er enghraifft, dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a phlannu hadau er mwyn tyfu tatws.

Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, mynd at y sinc i olchi eu dwylo, gosod weips gwlyb yn y bin ar ôl sychu eu hwynebau, yn ogystal â thacluso'r teganau a'r adnoddau. Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o falchder o'u cyflawniadau, ac yn gwenu wrth iddynt dderbyn canmoliaeth gan y staff. Mae'r plant yn helpu ei gilydd wrth iddynt geisio tynnu eu cotiau ar eu pen eu hunain ar ôl chwarae yn yr ardal awyr agored.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae bron pob aelod o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hybu ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn dilyn polisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn dilyn arferion glanhau yn drylwyr, er enghraifft, maent yn glanhau'r bwrdd cyn cael bwyd ac yn cwblhau gwaith glanhau trylwyr ar ddiwedd pob sesiwn. Mae'r staff yn golchi eu dwylo yn drylwyr ac yn aml ac yn annog y plant neu'n eu helpu i wneud yr un peth. Mae'r staff yn gwisgo ffedog a menig wrth baratoi bwyd.

Mae pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol ar gyfer damweiniau a digwyddiadau; fodd bynnag, nid yw rhai o'r cofnodion yn cynnwys llofnod rhiant. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn hyderus o ran y weithdrefn i'w dilyn pe byddai ganddynt bryderon ac nid ydynt yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Atal. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant amddiffyn plant diweddaraf. Mae'r staff yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau a amlinellir yn y polisi.

Mae'r staff yn gymwysedig, ac maent yn gofalu am y plant yn effeithiol ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson, er mwyn i'r plant fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Maent yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad da a hyrwyddo datblygiad, *"Da iawn ti. Good boi yn siarad."* Ni welsom unrhyw enghreifftiau o ymddygiad annymunol. Mae'r staff yn ymateb i'r plant mewn ffordd gyson a chadarnhaol. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gynnes a charedig. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion gan ddefnyddio iaith gadarnhaol ac mae rhai aelodau o'r staff yn eu hannog i fod yn gwrtais ac i ddweud *"Please"* a *"thank you"*. Mae'r staff yn creu cyfnodau cymdeithasol i'r plant yn ystod amser bwyd, ond nid ydynt yn hybu annibyniaeth y plant mewn ffordd ragweithiol yn ystod amser byrbryd. Mae'r lleoliad yn darparu byrbrydau iach i'r plant.

Mae'r staff yn dangos esiampl dda i'r plant wrth iddynt siarad yn garedig ac yn barchus â'i gilydd. Mae'r staff yn ymateb i'r plant mewn ffordd gariadus; maent yn rhoi maldod iddynt, yn eu cofleidio ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn diwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae'r staff yn cytuno ar thema ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n addas ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau y caiff meysydd dysgu eu cynnwys yn y gwaith cynllunio, ond nid yw'r broses o feithrin sgiliau bob amser yn rhan o'r gwaith cynllunio. Gwelsom samplau o waith y plant ond nid oedd dyddiadau wedi'u nodi ar y gwaith. Mae'r staff yn asesu cynnydd y plant ac yn cadw cofnod ysgrifenedig o'u cynnydd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn a'u bod yn gweithio'n dda fel rhan o'r tîm. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant drwy gydol y sesiwn, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ac wrth roi canmoliaeth a chyfarwyddiadau.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gloi. Mae'r staff hefyd yn cadw rhestr o ymwelwyr â'r cylch meithrin. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal amgylchedd da er mwyn gwella profiadau'r plant. Mae pob gwiriad diogelwch ar y cyfarpar yn gyfredol yn dilyn yr ymweliad. Nid oedd asesiadau risg ar gael i'w gweld yn ystod yr ymweliad, ond fe'u hanfonwyd at Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn yr ymweliad. Mae'r asesiadau risg yn nodi risgiau ac yn dangos tystiolaeth bod camau yn cael eu cymryd i leihau'r risgiau hyn neu eu dileu. Mae ardal benodedig ar gyfer paratoi bwyd a chaiff yr ardal hon ei chadw'n lân ac yn daclus. Mae'r plant yn dod â phecynnau cinio o gartref, ond mae'r pecynnau hyn yn cael eu storio ar dymheredd yr ystafell.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau trylwyr ar waith er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da.  Nid oedd cofnodion o ymarferion tân ar gael i'w gweld yn ystod yr ymweliad arolygu, ond cawsom gofnodion ohonynt yn dilyn yr ymweliad. Maent yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal awyr agored ar gael i'r plant, sy'n cynnig gofod dysgu a chyfleoedd i'r plant archwilio. Mae'r adnoddau ar gyfer yr ardal awyr agored yn cynnwys llithren, teganau reidio, cegin fwd, ardaloedd plannu, tai chwarae plastig, peli yn ogystal ag ystafell ddosbarth awyr agored bren a chyfarpar dringo. Yn ystod yr ymweliadau, rhoddodd y staff ddigon o gyfleoedd i'r plant chwarae'n gorfforol yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth briodol o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, a gaiff eu cylchdroi er mwyn cynnig amrywiaeth a dewis da. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiadol er mwyn meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy deganau adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar ffurf agored ac o fewn cyrraedd iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae bron pob aelod o'r staff yn rhoi'r polisïau ar waith yn effeithiol wrth redeg y lleoliad. Mae datganiad o ddiben ar waith. Cafodd y datganiad hwn ei ddiweddaru yn ystod yr arolygiad ac mae bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio mewn ffordd drefnus, fel eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant yn llawn. Cadarnhaodd aelodau o'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau unigol; fodd bynnag, ni chaiff pob cyfarfod ei gofnodi. Nid oes trefniadau rheoli perfformiad llawn ar waith, gan nad oedd cofnodion i'w gweld ar gyfer pob aelod o'r staff yn ystod yr ymweliad. Cawsom gopïau pellach yn dilyn yr ymweliad.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr er mwyn diogelu'r plant. Nid ydynt yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriadau addasrwydd cyfredol. Fodd bynnag, cymerodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gamau ar unwaith yn dilyn yr ymweliad, gan sicrhau bod gwiriadau addasrwydd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff. O ganlyniad, nodir y maes hwn fel maes i'w wella a chaiff ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Maent yn darparu gweithdrefn sefydlu ar gyfer staff newydd, ond nid ydynt bob amser yn annog hyfforddiant parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol. Cwblhawyd adolygiad o ansawdd y gofal, sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiad yn cynnwys safbwyntiau'r plant a'r staff ac nid yw'n nodi ffyrdd ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ymhellach. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac yn arwain y plant mewn modd priodol. O ganlyniad, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a gânt gan aelodau o staff brwdfrydig a gofalgar.

Mae'r partneriaethau yn ddigonol. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r gymuned leol ac maent hefyd wedi meithrin partneriaethau â busnes lleol yn ogystal â thrigolion. Mae rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad hwn yn dweud wrthym fod y staff yn ofalgar ac yn garedig. Mae'r rhieni yn canmol y gwasanaeth, a gwnaethant ddweud wrthym, *"I'm happy with everything. There's really good communication and my child loves coming."* Dywedodd rhiant arall wrthym ei fod yn cael digon o adborth llafar mewn perthynas â datblygiad ei blentyn a'i fod yn cael digon o ffotograffau drwy dudalen cyfryngau cymdeithasol y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw ffeiliau'r staff yn cynnwys y ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Newydd |
| 28 | Gwiriad DBS annilys ar gyfer y person â chyfrifoldeb a'r person cofrestredig. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn glir o ran y weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddo bryderon neu os gwneir honiad. Byddai'n arfer da i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn llofnodi pob cofnod damweiniau. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys barn y staff, y rhieni a'r plant. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau unigol a chânt eu cofnodi'n ffurfiol. Mae'r staff yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Mae'r bwyd yn y pecynnau cinio yn cael ei storio'n briodol. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Caiff sgiliau eu cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau a nodir dyddiadau ar waith y plant er mwyn dangos cynnydd/camau am yn ôl. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Annog cyfleoedd pellach i'r plant fod yn annibynnol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2023